

CYFARFOD	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
DYDDIAD	13 Medi 2019
TEITL	Cyfrifon Terfynol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 ac Archwiliad perthnasol
PWRPAS	Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none"> • Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad; • Adroddiad 'ISA260' Deloitte; • Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1).
ARGYMHELLIAD	Ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr
AWDUR	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

1. CYFRIFON 2018/19

Roedd bwriad eleni i'r cyfrifon terfynol yn dilyn archwiliad gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 29 Gorffennaf 2019. Yn anffodus, bu i Deloitte, sef archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd, fethu rhyddhau eu hadroddiad erbyn y dyddiad yma, ac felly bu rhaid trefnu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Medi. O ganlyniad, y Datganiad o Gyfrifon 2018/19 (cyn archwiliad) a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 29 Gorffennaf 2019, pryd bu craffu priodol.

2. ARCHWILIAD GAN DELOITTE AR RAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Nodwyd yng nghyfarfod Gorffennaf fod y cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan gwmni Deloitte, a chyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Deloitte.

3. DATGANIADAU ARIANNOL ÔL-ARCHWILIAD AM 2018/19

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2018/19. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3 i adroddiad 'ISA260' Deloitte.

4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried a chymeradwyo'r –

- Adroddiad 'ISA260' gan Deloitte ar gyfer Cyngor Gwynedd
- Datganiad o'r Cyfrifon 2018/19 (ôl-archwiliad)

5. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Deloitte) wedi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gymeradwyo'r uchod.

6. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Adrian Crompton) yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon.